

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

P J Lucas

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 26 Hydref 2016 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 yn rhai cywir.

1 - 8

4 LLYWODRAETHU AGORED:

- 5 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Adnoddau Dynol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber**

"A wnaiff y Dirprwy Arweinydd ddatganiad ynglŷn â defnydd y Cyngor o'r cyfryngau cymdeithasol?"

- (b) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Watts i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar waith y Cyngor o hybu cydraddoldeb?"

- (c) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi, y Diwydiant Ymwelwyr, a Chynllunio, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Bevan**

"Beth yw'r bygythiadau i'r prosiectau sy'n cael cyllid yr Undeb Ewropeaidd i'r Fwrdeistref Sirol gyfan ar ôl gadael yr Undeb?"

- (ch) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.E.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Chwaraeon, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings**

"A wnewch chi ddatganiad ar y buddsoddi yn y gwasanaethau hamdden?"

- (d) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol B.Stephens i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.A.Norris**

"Byddwch gystal â rhoi'r diweddarafŷr ynŷl dulliau ymgysylltu'r Cyngor â phobl ifainc"

7 TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL

Yn unol â pharagraff 13.2 o Ran 4 Cyfansoddiad y Cyngor i gychwyn trafodaeth yr Arweinydd.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

8 Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2017/18 – Y Setliad Dros Dro

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi'r diweddaraf i'r cynghorwyr ynghyd â setliad dros dro ar gyfer cyllideb llywodraeth leol ar gyfer 2017/18.

9 Swydd y Prif Weithredwr

Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.

9 - 10

10 RHYBUDDION O GYNIGION

- (1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C.Middle, G.Holmes, L.M.Adams, T.Bates, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Bunnage, A.Calvert, P.Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies MBE, A.Davies, J.Davies, M.Davies, L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.S.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, E.Hanagan, G.Hopkins, S.Jones, L.Langford, R.Lewis, C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, G.Smith, R.Smith, G.Stacey, B.Stephens, M.Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, J.S.Ward, M.J.Watts, M.Webber, D.Weeks, C.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:-

"Bod y Cyngor hwn yn nodi:

1. Y rheidrwydd sydd arno i gymuned y Lluoedd Arfog yn Rhondda Cynon Taf fel sy'n cael ei nodi yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog; na ddylai cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o ran darpariaeth gwasanaethau a bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig y sawl sydd wedi gwneud yr aberth fwyaf.

2. Diffyg ystadegau diffiniol a chynhwysfawr ar faint neu ddemograffig cymuned y Lluoedd Arfog yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys milwyr Parhaol ac Wrth Gefn, cyn-filwyr a'u teuluoedd.


3. Byddai argaeledd y cyfryw ddata yn fuddiol iawn i'r Cyngor, asiantaethau partner lleol, y sector gwirfoddol a'r Llywodraeth Genedlaethol yn yngŷ chynllunio gwasanaethau a'u darparu er mwyn diwallu anghenion unigryw cymuned y Lluoedd Arfog yn Rhondda Cynon Taf.

Yng ngoleuni'r uchod, bod y Cyngor yn gwneud cynnig i gefnogi ac i hybu cais y Llang Brydeinig Frenhinol am gynnwys adran newydd yng nghyfrifiad 2021 sy'n ymwneud â gwasanaeth milwrol ac aelodaeth o gymuned y Lluoedd Arfog. Bod y Cyngor, ar ben hynny, yn galw ar Senedd San Steffan, a fydd yn cymeradwyo'r holiadur terfynol ar gyfer y cyfrifiad trwy ddeddfwriaeth yn 2019 i sicrhau bod cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog.

- (2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.S.Fox, B.Morgan, L.M.Adams, T.Bates, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Bunnage, A.Calvert, P.Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies MBE, A.Davies, J.Davies, M.Davies, L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, M.Griffiths, P.Griffiths, E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, S.Jones, L.Langford, R.Lewis, C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, G.Smith, R.Smith, G.Stacey, B.Stephens, M.Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, J.S.Ward, M.J.Watts, M.Webber, D.Weeks, C.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:-

"Bod y Cyngor yn cefnogi gwaith y Seneddol Hollbleidiol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â pheiriannau hapchwarae ods sefydlog, ac mae'n galw ar Lywodraeth San Steffan i reoleiddio'u defnydd ymhellach.

- 11 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor

19 Hydref, 2016